



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRODDIAD

Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaeodd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru: ymateb y llywodraeth

Ein hymateb i adroddiad ac argymhellion Estyn.

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 Awst 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 1 Awst 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyngor-ac-arweiniad-diduedd-ar-yrfaeodd-i-bobl-ifanc-14-16-oed-ddarperir-gan-gynghorwyr-gyrfa-cymru> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

[Argymhelliad 1](#)

[Argymhelliad 2](#)

[Argymhelliad 3](#)

[Argymhelliad 4](#)

[Argymhelliad 5](#)

[Argymhelliad 6](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyngor-ac-arweiniad-diduedd-ar-yrfaoedd-i-bobl-ifanc-14-16-oed-ddarperir-gan-gynghorwyr-gyrfa-cymru> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Argymhelliad 1

Dylai Gyrfa Cymru ddatblygu systemau a meini prawf priodol i werthuso'r effaith a gaiff gwasanaethau ar effeithiolrwydd a gwydnwch pobl ifanc wrth iddynt gynllunio gyrfa a gwneud penderfyniadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gyrfa Cymru i archwilio dull mwy hydredol o werthuso ei ddarpariaeth gwasanaeth yn unol â'r dyheadau o fewn y strategaeth Dyfodol Disglair.

Argymhelliad 2

Dylai Gyrfa Cymru sicrhau bod gwerthuso effeithiol, wedi'i seilio ar dystiolaeth gywir, gynhwysfawr a pherthnasol, yn llywio cynllunio strategol a gwella ansawdd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru er mwyn symud yr argymhelliad hwn ymlaen gan gymryd cyngor gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus ar arferion gorau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyngor-ac-arweiniad-diduedd-ar-yrfaedd-i-bobl-ifanc-14-16-oed-ddarperir-gan-gynghorwyr-gyrfa-cymru> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Argymhelliad 3

Dylai Gyrfa Cymru gryfhau cysylltiadau gyda chwmnïau gyrfaoedd eraill i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol a datblygu arfer dda.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae cysylltiadau cryf iawn eisoes yn bodoli gyda chwmnïau gyrfaoedd ar draws y DU. Cynhaliwyd nifer o brosiectau ar y cyd â Skills Development Scotland ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr yng Nghanada ar ymchwil i fanteision cyngor gyrfaoedd ar iechyd a lles pobl ifanc. Bydd y gwaith hwn yn parhau ac yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 4

Dylai Gyrfa Cymru sicrhau bod dadansoddi o weithgareddau sicrhau ansawdd yn cael ei fwydo'n ôl i ysgolion unigol i gryfhau addysg gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae gyrfaoedd a'r byd addysg gysylltiedig â gwaith yn rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, a chyfrifoldeb ysgolion yw cyflawni'r rhaglen honno o waith. Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn deall gwerth y gweithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr y maent yn ymgymryd â hwy.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyngor-ac-arweiniad-diduedd-ar-yrfaoedd-i-bobl-ifanc-14-16-oed-ddarperir-gan-gynghorwyr-gyrfa-cymru> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Argymhelliad 5

Dylai Gyrfu Cymru sicrhau bod pob un o'r staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth y Gymraeg fel medr cyflogaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gyrfu Cymru ar yr argymhelliad hwn. Mae gan Gyrfu Cymru bolisi cwbl ddwyieithog i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid yn eu dewis iaith, mae pob cyhoeddiad a chyfrwng yn cael ei ddarparu i gwsmeriaid yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Argymhelliad 6

Dylai Gyrfu Cymru sicrhau bod pob un o'r staff yn deall trefniadau a gweithdrefnau'r cwmni ar gyfer diogelu pobl ifanc, yn cynnwys pwy yw person diogelu dynodedig Gyrfu Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod hyn gyda bwrdd Gyrfu Cymru. Mater gweithredol ar gyfer Gyrfu Cymru yw hwn.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyngor-ac-arweiniad-diduedd-ar-yrfaoedd-i-bobl-ifanc-14-16-oed-ddarperir-gan-gynghorwyr-gyrfa-cymru> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).